**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2023 DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: CYNGHORYDD S. BEHR (IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR – Eitemau 1-4 yn unig)

Cynghorwyr D. Bevan
K. Chaplin
W. Hodgins
C. Smith
J. Wilkins

Joanne Absalom
Martin Veale

GYDA: Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol
Cyfreithiwr

AC: Alice King, Archwilio Cymru
Deborah Woods, Archwilio Cymru

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Rheolwr Archwilio a Risg a'r Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>PENODI CADEIRYDD 2023/2024</u>**<br><br>Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer 2023/2024.<br><br>Cynigiodd Aelod fod Ms Joanne Absalom yn cael ei phenodi i'r swydd, ac eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD penodi Ms Joanne Absalom i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer 2023/2024.<br><br>Cymerodd Ms. Absalom y Gadair ar y pwynt hwn.<br><br>Cytunwyd y byddai Eitem Rhif 22 – Asesiad Effaith Integredig y Ganolfan Ddinesig yn cael ei ystyried y pwynt hwn. | |
| No. 5 | **<u>ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG Y GANOLFAN DDINESIG</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar y camau gweithredu dilynol:<br><br>➢ Darparu'r costau terfynol yn gysylltiedig gyda dymchwel y Ganolfan Ddinesig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Diweddaru ffigurau ymwelwyr yn ymwneud ag ymweliadau i bob hyb cymunedol ar gyfer Chwefror – Mehefin 2023 yn cynnwys natur defnydd a sut yr oedd preswylwyr yn rhyngweithio drwy'r sianeli hyn.<br>➢ Cylchredeg yr adroddiad yn ymwneud â model gweithredu newydd y Cyngor a gytunwyd yn y Cyngor ar 25 Mawrth.<br>➢ Darparu mwy o wybodaeth yng nghyswllt problemau parcio/mynediad, yn arbennig mynediad i'r anabl mewn hybiau cymunedol.<br>➢ Darparu nifer ymwelwyr i ganol tref Glynebwy.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y cafodd asesiad effaith integredig ei gwblhau yn unol gyda deddfwriaeth i gael ei gytuno'n ffurfiol yn y Cyngor. | |
| **No. 6** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r penderfyniadau., | |
| **No. 7** | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 8** | **BLAENRAGLEN GWAITH 2023-24**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Flaenraglen Gwaith 2023/2024 arfaethedig.<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cynnwys yr eitemau dilynol o fewn Blaenraglen Gwaith 2023/2024:<br><br>➢ Silent Valley Waste Services Cyf – rhoi manylion am gwblhau'r trosglwyddiad mewnol.<br>➢ Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br>➢ Adolygu sut y gellir sicrhau'r Pwyllgor am gynnydd ar yr argymhellion Archwilio Allanol a Mewnol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Cynnal trafodaeth gyda swyddogion priodol yng nghyswllt darparu adroddiad yn ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r Flaenraglen Gwaith, gyda'r diwygiadau uchod. | |
| **No. 9** | <u>**DATGANIAD CYFRIFON 2021/22**</u><br><br>Ar y pwynt hwn cyflwynwyd Deborah Woods, Arweinydd Archwilio newydd Blaenau Gwent, i'r Pwyllgor.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau ddiweddariad llafar ynghylch Datganiad Cyfrifon 2021/2022 a dywedodd y Pwyllgor, yn amodol ar bod Archwilio Cymru yn cwblhau eu harchwiliad yn cynnwys ISA 260 a barn archwilio, caiff Datganiad Cyfrifon 2021/2022 ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Gorffennaf 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 10** | <u>**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y RHEOLWR ARCHWILIO A RISG 2022/23**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd:<br>➢ Diwygio geiriad yr hysbyseb Gymraeg yn ymwneud â'r swydd wag ar gyfer aelodau lleyg, os oes angen.<br>➢ Rhoi diweddariad ar y tri ymchwiliad mawr a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn, ar yr adeg gywir.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, ar yr uchod, i dderbyn yr Adroddiad a Barn Archwilio Flynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg, sef yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2022/23, bod system rheoli mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 wedi gweithredu i lefel oedd yn rhoi Sicrwydd Rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd digidol fframwaith y sefydliad o lywodraethiant a rheoli risg. | |
| **No. 11** | <u>**CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023-2028**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r sail ar gyfer dethol/blaenoriaethu archwilio fel y disgrifir yn adran 2 yr adroddiad, a chymeradwyo'r cynllun archwilio, gan farnu ei fod yn rhoi digon o sylw y gallai'r Rheolwr Archwilio a Risg roi barn archwilio blynyddol arnynt, gan alluogi'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i gyflawni ei rôl sicrwydd. | |
| **No. 12** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau amser cychwyn cyfarfodydd y dyfodol o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol y bydd cyfarfodydd y dyfodol o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn cychwyn am 9.30 a.m. | |